Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Deganwy
**Ysgol Deganwy**
**Park Drive**
**Deganwy**
**LL31 9YB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Deganwy

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Deganwy |
| Categori gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Unigolyn/unigolion cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lisa Morgan |
| Unigolyn â gofal | Lisa Morgan |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Ystod oedran y plant | 2½ i 4 oed |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu am hyd at ddau dymor | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu am hyd at bum tymor | 0 |
| Dyddiau/amseroedd agor | 8.45am i 2.30pm yn ystod y tymor |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw’r lleoliad hwn yn gweithredu’r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth ymarferwyr sy’n siarad Cymraeg â’r plant ac sy’n cyflwyno’r iaith trwy eiriau syml, caneuon ac arddangosiadau. |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan AGC | |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan Estyn | 01/10/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad hwn | 08/02/2022 |

Saesneg yw iaith gyntaf y rhan fwyaf o’r plant, gydag ychydig hefyd yn siarad Groeg. Mae ychydig o blant hefyd yn siarad Cymraeg gartref.

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Parhau i weithio’n agos gyda’r awdurdod lleol i sicrhau bod effaith yr hyfforddiant ar y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu’n rheolaidd

A2 Sicrhau bod yr amgylchedd yn adlewyrchu gwaith creadigol y plant a'u syniadau eu hunain yn well

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae bron pob un o’r plant yn dewis ble maen nhw eisiau chwarae ac yn mwynhau archwilio gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn penderfynu ble maen nhw eisiau eistedd i wrando ar stori neu ganu caneuon ac mae ymarferwyr yn parchu eu dewisiadau, gan ddangos bod gan blant lais a bod rhywun yn gwrando arnynt.

Mae bron pob un o’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn eistedd neu’n chwarae ochr yn ochr â’u ffrindiau yn hyderus wrth chwarae. Mae pawb yn gyffrous i fynd allan i chwarae'n hapus yn yr awyr iach. Mae'r plant yn mynd at ymwelwyr yn hyderus i egluro beth maent yn ei wneud a siarad am eu cartrefi a'u teuluoedd. Siaradant yn gyffrous am eu diddordebau, megis arddangos eu symudiadau dawns gyda balchder. Mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol ag ymarferwyr, y maent yn hapus i fynd atynt i gael cymorth a sicrwydd.

Mae rhan fwyaf y plant yn rhyngweithio’n eithriadol o dda ar gyfer eu hoedran a’u cam datblygu. Er enghraifft, mae hyd at bump o blant yn cyd-chwarae ag anifeiliaid tegan, gan ddatblygu gemau dychmygol a chyffrous. Maent yn garedig â'i gilydd ac yn rhannu'n hapus. Maent yn dangos lefel dda o ddiddordeb yn yr hyn y mae eu ffrindiau yn ei wneud ac yn gwneud sylwadau adeiladol. Gwrandawant yn dda ar gyfarwyddiadau a, phan ofynnir iddynt, golchant eu dwylo wrth ddod i mewn o'r tu allan a chyn bwyta. Maent yn hapus ac yn brysur ac yn dweud cymaint y maent yn mwynhau dod i chwarae gyda'u ffrindiau.

Mae bron pob plentyn yn weithgar ac yn dysgu trwy chwarae. Mae eu pleser yn amlwg pan fyddant yn dychmygu eu bod mewn tŷ, yn coginio gyda'i gilydd ac yn gofalu am eu babanod. Maent yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu cryfder corfforol a chydbwysedd trwy reidio beiciau pedal a sgwteri. Mae llawer yn datblygu creadigrwydd a sgiliau echddygol manwl trwy weithgareddau yn y gegin fwd ac wrth arddio.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn datblygu annibyniaeth yn dda ac yn teimlo’n gartrefol gyda’r drefn arferol. Maent yn casglu eu bagiau a'u cotiau i fynd i'r ysgol neu i fynd adref. Dewisant lyfrau i'w mwynhau a siaradant amdanynt gyda'u ffrindiau. Mae eu hiaith yn datblygu'n dda trwy'r sgyrsiau niferus a gânt gyda'i gilydd ac ymarferwyr. Mae’r plant yn dod yn fwyfwy cyfarwydd ag ymadroddion a geirfa Gymraeg syml ac yn ymuno â chaneuon cyfarwydd.

**Dysgu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae nifer o'r plant yn dechrau gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn gwahanol. Maent yn dod yn ddysgwyr brwdfrydig. Maent yn arddangos chwilfrydedd ac yn archwilio'r ardaloedd tu fewn a thu allan yn rhwydd. Er enghraifft, mae bron pob un o’r plant yn mynegi llawenydd wrth archwilio’r gegin fwd i wneud cawl siocled.

Mae sgiliau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y plant yn rhannu gofod ac adnoddau yn hapus gyda'i gilydd. Cydweithiant yn dda i rannu ardaloedd megis ardal chwarae rôl y gegin, a chymerant eu tro yn gwneud paneidiau o de i'w gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn llwyddiannus iawn yn eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, wrth fynd i mewn i'r cylch chwarae, mae llawer o'r plant yn tynnu eu cot heb gymorth oedolyn a dim ond ychydig o blant sydd angen ychydig o gymorth.

Mae llawer o'r plant yn dechrau datblygu sgiliau mathemategol da trwy gyfleoedd amrywiol a chyffrous. Siaradant am gynhwysedd wrth wneud cacen â thywod gwlyb. Mae llawer o'r plant yn dechrau deall ac adnabod rhifau. Gyda chymorth oedolion, cyfrifodd llawer o'r plant nifer yr hwyaid rwber i bump yn y blwch dŵr a gallai ychydig o blant ddod o hyd i'r rhif cyfatebol ar siart.

Mae sgiliau datrys problemau yn datblygu'n dda. Mae'r plant yn arbrofi gyda chydbwysedd trwy geisio gwneud i wrthrychau sefyll. Defnyddiant y blociau pren i wneud eu hadeileddau eu hunain a gweld pa mor uchel y gallant gydbwyso tŵr heb iddo ddisgyn. Mae llawer o'r plant yn gwneud eu cyrsiau rhwystr eu hunain yn yr awyr agored. Defnyddiant y teiars a'r trawstiau cydbwysedd a'u gosod yn ofalus fel y gallant deithio ar eu hyd.

Pan fydd ymarferwyr yn darllen storïau fel Sali Mali, mae llawer o'r plant yn dangos mwynhad ac yn gwrando'n ofalus ac mae ychydig o'r plant yn rhagfynegi beth fydd yn digwydd nesaf yn y stori. Mae rhai plant yn dechrau ymweld â'r ardal ddarllen i edrych ar lyfr o'u dewis ac yn trin llyfrau fel darllenwyr. Mae bron pob un o'r plant yn ymuno'n hyderus â chaneuon a rhigymau, fel 'Incy Wincy Spider', gydag ychydig iawn o gymorth gan oedolyn. Mae bron pob plentyn yn dysgu arbrofi gyda gwneud marciau mewn llawer o wahanol ffyrdd trwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, maent yn defnyddio paent mwdlyd a brwshys i wneud marciau ar yr îsl a sialc i dynnu lluniau yn yr awyr agored. Trwy arferion dyddiol fel amser cylch, mae llawer o'r plant yn dechrau dysgu a deall Cymraeg syml fel 'ble mae?' ac mae'r rhan fwyaf yn ateb 'dyma fi' yn frwdfrydig.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus. Defnyddiant ystod o offer gyda rheolaeth a chywirdeb da, megis wrth ymarfer torri papur â siswrn neu wrth drin clai i wneud model. Maent yn reidio beiciau gyda chydsymudedd da, ac yn rhedeg gyda'u ffrindiau y tu allan, gan lwyddo i osgoi unrhyw rwystrau yn eu ffordd.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu eu creadigrwydd yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn chwarae dychmygus ac yn gwneud bwyd blasus i'w gilydd i'w fwyta yn ardal chwarae rôl y gegin. Maent yn dylunio eu modelau eu hunain allan o glai, gan ddewis o ystod o ddeunyddiau megis plu i'w haddurno. Trwy weithgareddau byd bach megis dod o hyd i'r pryfed cop cudd, maent yn dechrau dysgu am gynefinoedd, ac mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da. Er enghraifft, maent yn deall sut i ddefnyddio offer megis camerâu a thynnu lluniau i ddangos i'w ffrindiau.

**Gofal a datblygiad:**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi sefydlu ystod o bolisïau a gweithdrefnau effeithiol i gefnogi iechyd a llesiant y plant. Mae'r ymarferwyr yn mynychu ystod addas o gyrsiau ac yn dilyn arferion sy'n ymwneud â diogelu plant. Maent yn gwybod beth i'w

wneud os oes ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ymolchi eu dwylo, gan eu hatgoffa'n dyner ar ôl iddynt ddod i mewn o'r ardd. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddeiet iach ac maent yn darparu byrbrydau maethlon i'r plant. Maent yn sicrhau bod cofnodion y plant yn cael eu cwblhau'n llawn, gan gynnwys elfennau sy'n ymwneud â'u hanghenion iechyd. Mae'r ymarferwyr yn llenwi cofrestr sy'n dangos presenoldeb, a chaiff mân anafiadau eu nodi a'u dwyn i sylw rhieni a gofalwyr.

Mae'r ymarferwyr yn hynod feddylgar ac yn darparu gofal magwrol. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol bob amser ac yn cynorthwyo plant yn dda yn unol â'u hanghenion unigol. Mae'r ymarferwyr yn feithringar, yn ddigynnwrf ac yn addfwyn gyda'r plant. Maent yn defnyddio lleisiau tawel ac yn gwneud yn siŵr bod pob un o'r plant yn deall, yn enwedig y rhai sy'n cyfathrebu'n ddieiriau, wrth gyfrif y munudau i dacluso. Mae'r ymarferwyr yn siarad â phlant mewn modd sensitif ac yn eu hatgoffa o reolau syml, megis bod yn ofalus wrth ddewis lle i eistedd wrth ymyl eu ffrindiau wrth aros yn amyneddgar 'am drên' i fynd i'r ysgol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio llawer o ganmoliaeth ac anogaeth gyda'r plant, sy'n hynod effeithiol. Mae gan yr ymarferwyr berthynas gadarnhaol â rhieni ac maent yn caniatáu digon o amser ar ddechrau a diwedd y sesiwn er mwyn cynnal llif rheolaidd o wybodaeth a pharhau i ddiwallu anghenion unigol y plant. Maent yn addasu'r ddarpariaeth i ymateb yn hynod effeithiol i anghenion unigol y plant, er enghraifft galluogi plant i fynd â hoff degan gyda nhw i gymryd rhan mewn gweithgaredd crefft gyda'i gilydd.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn gallu darparu lefel arbennig o ofal ar eu cyfer. Maent yn gwybod yn reddfol pryd i sefyll yn ôl a chaniatáu i blant chwarae ar eu pen eu hunain a phryd i arwain a rhoi cymorth. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau diddorol i'r plant, sy'n cynnwys canlyniadau i'w helpu i wneud cynnydd da. Mae'r ymarferwyr yn asesu'r plant ac yn cwblhau cofnodion cynnydd parhaus trwy gydbwysedd o weithgareddau a arweinir gan blant ac oedolion. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn hynod effeithiol, gan ymuno'n aml mewn gemau a defnyddio hiwmor da gyda lleisiau gwirion, er mawr gyffro i'r plant.

**Addysgu ac asesu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio ystod eang o brofiadau dysgu sy'n adlewyrchu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwybodaeth a dealltwriaeth trwy ddarparu pibellau i blant arbrofi â nhw i wneud i geir fynd yn gyflym ac yn araf. Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu ysgogol y tu mewn a'r tu allan. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd chwarae naturiol penagored, megis didoli moch coed a choncyrs. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar ddiddordebau'r plant ac yn ychwanegu adnoddau i'r amgylchedd yn unol â hynny.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu gwerthfawr i annog pob plentyn i gymryd rhan yn eu dysgu. Defnyddiant gwestiynau penagored yn fedrus i ddatblygu iaith plant, megis gofyn beth allai ddigwydd nesaf mewn stori. Maent yn datblygu sgiliau meddwl y plant, trwy ofyn iddyn nhw ragfynegi beth fydd yn digwydd

os ydyn nhw’n adeiladu eu tŵr yn dal iawn. Mae bron pob un o’r ymarferwyr yn fodelau rôl iaith rhagorol. Maent yn gweithio ochr yn ochr â’r plant ac yn rhoi sylwadau ar eu chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r clai chwarae fel “slwtsh” neu “meddal”.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer hyrwyddo sgiliau llythrennedd y plant yn effeithiol. Mae llawer o’r ymarferwyr yn rhannu llyfrau gyda’r plant, sy'n hyrwyddo sgiliau trin llyfrau da. Fodd bynnag, nid yw rhai plant yn codi llyfr i'w ddarllen yn rhwydd oni bai fod oedolyn gyda nhw. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu sgiliau gwneud marciau, gan ddefnyddio ystod o gyfryngau megis sialc, brwshys paent o wahanol faint a phennau ffelt. Mae gweithgareddau buddiol i ddatblygu sgiliau rhifedd y plant. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i gyfrif – er enghraifft, cyfrif sgwpiau o gompost i wneud cawl yn y gegin fwd. Mae bron pob un o’r ymarferwyr yn hyrwyddo iaith fathemategol yn effeithiol. Maent yn annog y plant i siarad am beth sy'n wag a llawn wrth lenwi cynwysyddion.

Mae'r lleoliad yn elwa ar siaradwr Cymraeg rhugl ac o ganlyniad caiff yr holl blant gyfleoedd da i glywed Cymraeg achlysurol a sgyrsiol trwy gydol y sesiwn. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau Cymraeg llawer o’r plant. Er enghraifft, maent yn dweud “yma” a “dyma fi” yn hyderus wrth gofrestru. Mae llawer o’r ymarferwyr yn defnyddio Cymraeg bob dydd yn briodol yn ystod arferion i gyfarch a chanmol y plant. Maent hefyd yn annog plant i ganu caneuon Cymraeg cyfarwydd fel “Bore da” a gwrando ar storïau syml. Mae’r ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth y plant o dreftadaeth Gymreig. Defnyddiant fyrddau arddangos i ddathlu diwylliant Cymreig trwy ddangos map a lluniau o atyniadau lleol.

Mae gan y lleoliad drefn arferol ar waith, ac o ganlyniad mae'r plant yn deall rhythm y sesiwn a'r hyn sy'n digwydd nesaf. Mae’r ymarferwyr yn annog pob plentyn i fod yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn ymolchi eu dwylo cyn byrbryd heb fawr o gymorth gan oedolyn. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, nid yw ymarferwyr bob amser yn manteisio’n llawn ar gyfleoedd pellach i gyfoethogi sgiliau llythrennedd, rhifedd ac annibyniaeth y plant.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn briodol trwy ddathlu digwyddiadau a gwyliau crefyddol, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, trwy archwilio a blasu bwydydd newydd.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddefnyddio offer TGCh i gyfoethogi eu dysgu ac i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ceir â theclyn rheoli o bell, a chamerâu i dynnu lluniau o waith y maent yn falch ohono.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd a datblygiad y plant. Yn dilyn COVID-19, mae’r lleoliad yn dechrau ailgyflwyno arferion arsylwi ac mae’r staff yn trafod sut i gynorthwyo dysgu’r plant. Er enghraifft, datblygodd ymarferwyr “orsaf siswrn” pan wnaethant nodi bod angen mwy o ymarfer ar blant. Maent yn rhoi diweddariadau gwerthfawr i rieni am yr hyn y mae eu plentyn wedi bod yn ei ddysgu trwy gydol y flwyddyn trwy eu “Llyfrau trysor”.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Er enghraifft, mae'r prif ddrws a mynedfa'r ystafell chwarae dan glo, gan wneud yr eiddo'n ddiogel

rhag mynediad anawdurdodedig. Mae asesiadau risg yn nodi unrhyw beryglon posibl yn effeithiol ac yn cadw plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau ac maent yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod gweithgareddau. Mae'r adeilad yn lân ac mae adnoddau'n cael eu golchi i sicrhau lefel dda o hylendid. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda system wresogi dan y llawr, goleuadau ac addurniadau llachar effeithiol. Mae'r ardal chwarae awyr agored a'r ardd yn ddiogel ac mae'r plant yn mynd allan bob dydd i chwarae pryd bynnag y dymunant. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd, sy'n dangos bod arweinwyr yn ymwybodol o sut i gadw'r plant yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol. Fodd bynnag, nid oes digon o waith plant yn cael ei arddangos i roi ymdeimlad o gyflawniad a pherthyn iddynt. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i weithgareddau ac ardaloedd o'r ddarpariaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal da mewn amgylchedd dysgu cefnogol ac ymlaciol, sy'n ystyried diddordebau'r plant a'u hanghenion unigol. Mae ystod dda o adnoddau yn hygyrch, sy'n galluogi plant i ddatblygu eu chwarae a'u hannibyniaeth eu hunain trwy ddewis eu teganau a'u hoffer eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, mae storfa lefel isel effeithiol, sy'n hygyrch i'r plant, gyda labeli Cymraeg. Mae'r ystafell chwarae a'r ardal awyr agored wedi'u rhannu'n ardaloedd dysgu gydag ystod o deganau ac offer, llawer ohonynt yn naturiol, megis blociau pren, y mae'r plant yn mwynhau chwarae â nhw ac yn eu gweld yn ddiddorol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ystod o adnoddau ac offer sydd o ansawdd da, yn naturiol ac wedi'u hailgylchu, fel teiars ar gyfer plannu a phibellau ar gyfer ceir rasio, sy'n gweddu i oedran a chyfnod datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cylchdroi'n effeithiol i gynnal diddordebau'r plant a chynnal amgylchedd da. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddilyn eu diddordebau, a datblygu eu chwilfrydedd. Er enghraifft, arweiniodd diddordeb plentyn mewn deinosoriaid at ystod o gyfleoedd dysgu. Mae byrddau a chadeiriau addas yn galluogi pawb i eistedd gyda'i gilydd i fwyta byrbryd neu gymryd rhan mewn gweithgareddau bwrdd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan y rheolwr weledigaeth glir iawn ar gyfer y lleoliad. Mae'n cydweithio'n llwyddiannus gyda'r holl ymarferwyr ac mae ffocws cryf ar greu ethos cadarnhaol, gofalgar lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae'r holl staff yn uchel eu cymhelliant, ac mae'r lleoliad yn lle gofalgar a chroesawgar i bob plentyn.

Mae'r pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am waith y lleoliad gan y rheolwr. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion sy'n codi ac i siarad am welliannau i'r dyfodol. Mae'r rheolwr yn rhoi adborth o gyfarfodydd y pwyllgor i'r holl ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r pwyllgor a'r staff yn teimlo'n gwbl hysbys ac yn gallu cyfrannu'n weithredol at waith y lleoliad.

Mae ymrwymiad cryf i waith tîm ac mae'r arweinydd yn cydweithio ag ymarferwyr i ddatblygu llesiant a dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae gan yr ymarferwyr rolau a chyfrifoldebau clir o fewn y lleoliad. Mae'r rheolwr yn dilyn gweithdrefnau recriwtio

cadarn, ac mae’n sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau addas sy'n cael eu defnyddio'n dda i hwyluso chwarae a dysgu yn effeithiol.

Mae gan y rheolwr ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun ac ymarferwyr, ac maent yn trafod ffyrdd o wella trwy arfarniadau blynyddol effeithiol a goruchwyliaeth reolaidd. Er bod arfarniadau yn cofnodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a chyrsiau yr ymgymerir â hwy, nid yw'r lleoliad bob amser yn ystyried yn llawn yr effaith y mae hyfforddiant yn ei chael ar arfer trwy fonitro neu fyfyrio rheolaidd. Mae’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd y plant i ddatblygu sgiliau newydd, yn enwedig yn yr awyr agored. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant, rhoddodd yr ymarferwyr fynediad rhydd i'r awyr agored ar waith, gan olygu bod gan bob plentyn fwy o ddewis o fannau i'w harchwilio.

Mae gan y lleoliad brosesau effeithiol ar waith ar gyfer hunanwerthuso. Mae’r rheolwyr yn cynnwys ymarferwyr, rhieni a phlant yn y broses. Mae’r broses hunanwerthuso yn adlewyrchu gwaith y lleoliad, ei gryfderau a’r hyn sydd angen iddo ei wneud i wella yn gywir. Er enghraifft, ar ôl nodi’r angen i wella cyfleoedd ar gyfer y Gymraeg yn y drefn arferol, gweithredodd rheolwyr gynllun datblygu. Erbyn hyn, mae’r plant yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod gwerth chweil o bartneriaethau. Mae'n cyfathrebu'n effeithiol â rhieni trwy e-bost, cyfryngau cymdeithasol a chyswllt wyneb yn wyneb dyddiol. Mae cylchlythyr tymhorol defnyddiol, gydag awgrymiadau defnyddiol i gynorthwyo dysgu eu plentyn gartref. Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd i rieni a gofalwyr ymwneud â dysgu eu plentyn. Er enghraifft, mae plant yn mynd â llyfr ‘Ticw's Adventures’ adref ac maent yn tynnu lluniau gyda'u rhieni i gofnodi sut y gwnaethon nhw dreulio'r penwythnos. O ganlyniad, gall rhieni fod yn rhan o brofiad eu plentyn yn y lleoliad.

Mae trefniadau pontio i'r lleoliad wedi newid yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, mae'r lleoliad wedi gweithio'n galed i sicrhau bod rhieni a phlant yn cael eu cefnogi trwy'r broses. Mae llawer o rieni newydd yn croesawu galwadau ffôn i siarad am hoffterau a chasbethau eu plentyn cyn iddynt ddechrau. Mae hyn yn golygu bod plant yn ymgartrefu'n gyflym i drefn arferol y lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu cysylltiadau buddiol â'r ysgol leol ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r athrawes dosbarth meithrin. Mae’n cymryd rhan mewn digwyddiadau arbennig megis mabolgampau. O ganlyniad, mae trefniadau pontio'r plant i'r ysgol yn esmwyth. Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerth chweil ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol, ac mae’n gweithredu ar ei chyngor a’i harweiniad yn briodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru).

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Cyfieithu Clir (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 12/04/2022